



TRAFNIDIAETH
CYMRU
TRANSPORT
FOR WALES

DYLUNIO GWASANAETH RHEILFFYRDD CYMRU A'R GORORAU, GAN GYNNWYS Y METRO

Crynodeb o'r ymatebion

Dyddiad cyhoeddi: 18 Gorffennaf 2017

CYFLWYNIAD

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw darparu system trafndiaeth gyhoeddus ddiogel, fforddiadwy, hygyrch a chynaliadwy o ansawdd uchel y gall pobl Cymru ymfalchïo ynddi. Rydym yn credu y bydd creu rhwydwaith trafndiaeth integredig, effeithiol yn gwella'r rhagolygon cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru gyfan, ac yn cysylltu pobl, cymunedau a busnesau â swyddi, cyfleusterau, gwasanaethau a marchnadoedd mewn modd fforddiadwy a chynaliadwy.

Cwmni dielw sydd yng ngofal cwmni arall yw Trafndiaeth Cymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 i roi cymorth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru ar brosiectau trafndiaeth yng Nghymru. Rydym wrthi'n ymgymryd â'r broses gaffael ar gyfer Gwasanaeth Rheilffyrdd nesaf Cymru a'r Gororau, gan gynnwys Metro De Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd ein hymgyngoriad, **Dylunio Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, gan gynnwys y Metro** ar ran Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafndiaeth ym mis Chwefror eleni i gasglu barn am y math o wasanaeth rheilffyrdd mae pobl ei eisiau. Mae'r adroddiad hwn yn grynodedb o'r ymatebion a gafwyd. Crynodeb cyffredinol ydyw ac nid yw'n cynnwys ymatebion unigol.

1. CEFNIDIR I'R YMGYNGHORIAD

Cyhoeddodd Trafnidiaeth Cymru ddogfen ymgynghori ar ran Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth ar 28 Chwefror 2017. Roedd y ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru gyda dolen o wefan yr Adran Drafnidiaeth. Cynlluniwyd yr ymgynghoriad i alluogi ymatebwyr i flaenoriaethu pa agweddau ar wasanaeth rheilffyrdd newydd arfaethedig sy'n bwysig iddynt. Bydd yr ymatebion a gafwyd yn helpu Trafnidiaeth Cymru i gynghori Llywodraeth Cymru am y math o wasanaeth rheilffyrdd y mae teithwyr am ei weld yn cael ei ddarparu yn ystod oes y gwasanaeth, a helpu i roi'r gwelliannau ar waith a fydd yn annog mwy o bobl i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

Rydym wedi cynnal ymgyrch ymgysylltu eang i gasglu barn gan bobl ledled Cymru ac ardal y Gororau yn cynnwys:

- Anfon e-gylchlythyr yn cynnwys dolen i'r ymgynghoriad at dros 170 o grwpiau rhanddeiliaid ar ein cronfa ddata
- Datblygu fersiwn Hawdd ei Deall
- Cyhoeddi fersiwn ar gyfer pobl ifanc
- Cynnal 5 digwyddiad ymgynghori ledled Cymru a'r Gororau yn Amwythig, Llandudno, Nantgarw, Caerfyrddin ac Aberystwyth
- Targedu teithwyr a'r rhai nad ydynt yn deithwyr drwy ymgyrch hysbysebu ar-lein
- Gweithio gyda Busnes Cymru i dargedu'r gymuned fusnes
- Comisiynu Cyfranogaeth Cymru i gasglu barn grwpiau cymunedol yng Ngogledd a De Cymru.

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd ymchwil annibynnol hefyd gan Transport Focus a fydd hefyd yn llywio ein dull gweithredu. Mae copi o'r ymchwil hwn ar gael ar ei wefan www.transportfocus.org.uk.

Pwy wnaeth ymateb?


Cafwyd nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad gydag ystod eang o sylwadau a Syniadau a fydd o help inni ddatblygu gwasanaeth rheilffyrdd sy'n diwallu anghenion pobl Cymru a'r Gororau. Cafwyd ymatebion drwy amryw o ffyrdd yn cynnwys:

- Ymatebodd dros 1,300 o bobl i'r ymgynghoriad naill ai drwy ddefnyddio'r templed neu drwy gyflwyno ymateb ysgrifenedig ar ffurf wahanol
- Mynychodd 128 o bobl y 5 digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd gan Trafnidiaeth Cymru
- Trefnwyd 8 grŵp ffocws â grwpiau cymunedol ar ein rhan gan Cyfranogaeth Cymru
- Cafwyd 61 o sylwadau drwy ein sianelau cyfryngau cymdeithasol, Twitter a Facebook
- Cafwyd 22 o ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Deall

- Cafwyd 17 o ymatebion i'r fersiwn ar gyfer pobl ifanc, gyda 7 ohonynt ar ran dosbarth.

O ble y daeth yr ymatebwyr?


Mae'r map isod yn dangos lleoliad daearyddol yr ymatebion a gafwyd. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar leoliad yr ymatebwyr gan ddefnyddio rhan gyntaf eu cod post a'u gorsaf agosaf.



2. YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD


Trenau i ddiwallu anghenion teithwyr

Yn yr adran hon, gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â chynllun y trê'n a'r gwasanaethau ar drenau. Mae ffigur 1 isod yn dangos sut y gwnaeth yr ymatebwyr flaenoriaethu'r gwahanol nodweddion. Mwy o le i roi bagiau oedd y flaenoriaeth uchaf i'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Roedd digon o le i'ch coesau hefyd yn flaenoriaeth i'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Roedd llawer hefyd yn credu bod alinio seddau â ffenestri yn bwysig hefyd, yn enwedig o ran y llinellau â golygfeydd hardd sy'n denu ymwelwyr. Ymysg y blaenoriaethau eraill a nodwyd yn y digwyddiadau ymgynghori a'r grwpiau ffocws roedd cyfleusterau toiled glân a hygyrch a bwyd a diod am brisiau rhesymol. Nododd llai o bobl gyfleusterau dosbarth busnes fel blaenoriaeth uchel.




Ffigur 1 – Defnyddio gofod yn effeithiol

Cafwyd nifer fawr o awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid sicrhau bod cymaint o le ag y bo modd i deithwyr a chreu lle i feicwyr gyda'u beiciau, yn arbennig yn ystod y cyfnodau prysuraf. Mae'r awgrymiadau hyn wedi'u grwpio yn themâu yn ffigur 2 isod. Yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd oedd cerbydau pwrpasol wedi'u cynllunio'n benodol i gario beicwyr, ac awgrymodd llawer hefyd y byddai cerbydau wedi'u cynllunio'n well gyda seddau mwy hyblyg yn darparu lle digonol.



Ffigur 2 - Creu lle i feicwyr gyda'u beiciau


Gofynnwyd pa mor bwysig yw cael ail aelod o staff ar y trê'n. Mae ffigur 3 isod yn dangos sut yr ymatebodd pobl i'r cwestiwn hwn, o ran Cymru a'r Gororau ac ardal y Metro. Dywedodd dros 90% o'r ymatebwyr fod ail aelod o staff naill ai'n eithaf pwysig neu'n hanfodol yng Nghymru a'r Gororau ac ardal y Metro ond mewn cyfrannau ychydig yn wahanol.



Ffigur 3 – Pa mor bwysig yw ail aelod o staff

Gofynnwyd i ymatebwyr beth yn eu tyb hwy ddylai rôl yr ail aelod o staff fod. Mae ffigur 4 isod yn dangos sawl ymatebydd a nododd y dyletswyddau gwahanol. Mae'r dosbarthiad yn seiliedig ar yr iaith a ddefnyddiwyd gan yr ymatebwyr. Ystyriwyd mai iechyd, diogelwch a sicrwydd oedd rôl bwysicaf yr ail berson. Crybwyllwyd


diogelwch, delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelu refeniw gan gynrychiolwyr yn y digwyddiadau hefyd fel tasgau pwysicaf yr ail aelod o staff.




Ffigur 4 - Rôl yr ail aelod o staff

Gorsafoedd i deithwyr a'r gymuned

Yn yr adran hon, roeddem eisiau deall sut y byddai ymatebwyr yn blaenoriaethu'r broses o gyflwyno unrhyw gyfleusterau a gwasanaethau newydd i orsafoedd. Mewn gorsafoedd mawr, fel y dangosir yn ffigur 5 isod, ystyriwyd toiledau, staff gorsafoedd a manau aros wedi'u cysgodi fel y cyfleusterau pwysicaf. Mewn gorsafoedd bach a gorsafoedd yn ardal y Metro, manau aros wedi'u cysgodi a theledu cylch cyfyng oedd y cyfleusterau yr ystyriwyd yn rhai pwysicaf, fel y dangosir yn ffigur 6 isod.




Ffigur 5 – Blaenoriaethau mewn gorsafoedd mawr



Ffigur 6 – Blaenoriaethau mewn gorsafoedd bach a gorsafoedd yn ardal y Metro

Cafwyd llawer o awgrymiadau ynglŷn â sut y gall y gymuned gymryd rhan yn y broses o wella eu gorsaf leol. Roedd mabwysiadu gorsaf gan grwpiau gwirfoddol (ysgolion, cynghorau cymunedol ac ati) yn syniad poblogaidd ymysg yr ymatebwyr. Awgrymodd llawer y gallai'r gymuned leol ofalu am welyau blodau, manau gwybodaeth lleol a chyfleusterau manwerthu yn cynnwys caffis, meithrinfeydd a chynlluniau llogi beiciau. Awgrymodd eraill y gellid lleoli cyfleusterau dinesig megis llyfrgelloedd a hybiau cynghorau mewn gorsafoedd. Roedd rhai ymatebwyr yn credu mai gweithredwr y rheilffyrdd ddylai fod â'r cyfrifoldeb am hyn er mwyn darparu swyddi cyflogedig yn y gymuned leol. Ystyriaeth arall a nodwyd oedd yr angen i grwpiau cymunedol fod â digon o gymhelliant i gymryd rhan.


Gofynnwyd i'r ymatebwyr a fyddent yn barod i dalu am barcio pe bai hyn yn arwain at well cyfleusterau. Fel y dangosir yn ffigur 7 isod, dywedodd dros 60% o bobl y byddent yn barod i dalu am barcio. Canolbwyntiodd y drafodaeth yn y digwyddiadau ar sicrhau parcio am ddim i'r rhai sy'n defnyddio'r trêen drwy wrthbwysu'r costau parcio yn erbyn cost y tocyn trêen.



Ffigur 7 – canran y rhai a fyddai'n fodlon talu am barcio


Gwasanaethau gwell

Wrth ystyried sut y gellid defnyddio capasiti'r rhwydwaith yn fwy effeithlon, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa welliannau a fyddai fwyaf gwerthfawr. Mae ffigur 8 isod yn dangos bod yr ymatebwyr yn ardal Cymru a'r Gororau ac yn ardal y Metro yn credu bod angen gwasanaethau amlach yn ystod oriau brig ac oriau eraill. Roedd trê'n olaf hwyrach yn opsiwn mwy poblogaidd na thrê'n cyntaf cynharach. Roedd llawer o'r adborth yn y digwyddiadau yn pwysleisio'r angen am wasanaeth llawn ar y Sul, ond ni chaiff hynny ei adlewyrchu yn y data a gasglwyd drwy'r brif ddogfen ymgynghori.



Ffigur 8 – Blaenoriaethau o ran defnyddio capasiti'r rhwydwaith

Gofynnwyd beth oedd y flaenoriaeth o ran gwella gwasanaethau. Ystyriwyd mai gwasanaethau mwy dibynadwy oedd yr agwedd bwysicaf o ran gwella gwasanaethau yn ardal Cymru a'r Gororau ac yn ardal Metro De Cymru. Mae ffigur 9 yn dangos sut y cafodd yr eitemau gwahanol eu sgorio. Gwasanaethau mwy dibynadwy a gafodd y sgôr uchaf o ran blaenoriaeth bwysicaf.




Ffigur 9 – Blaenoriaeth o ran gwelliannau yn ardal Cymru a'r Gororau ac ardal y Metro

Gofynnwyd pa anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu wrth newid trenau neu newid o drên i fws a chafwyd nifer fawr o ymatebion.


Y prif anhawster a amlinellwyd gan yr ymatebwyr oedd cydgysylltu rhwng dulliau trafndiaeth, yn cynnwys amserlennu, tocynnau ac argaeledd gwybodaeth. Nododd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn cael anhawster gyda chysylltiadau o ganlyniad i amhariadau i wasanaethau a/neu'r pellter rhwng dulliau trafndiaeth cysylltiol. Roedd y problemau hyn yn waeth i'r rhai sydd eisoes yn wynebu rhwystrau o ran symudedd a/neu'r rhai â chadair wthio.

Gwasanaethau trawsffiniol: Gwasanaethau a gorsafoedd yn Lloegr

Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â dyfodol y gwasanaeth mewn gorsafoedd yn Lloegr. Mae ffigur 10 isod yn dangos bod 75% o ymatebwyr yn anghytuno y dylid ystyried trosglwyddo'r tair gorsaf fwyaf, Henffordd, Amwythig a Chaer, i weithredwr arall. Roedd 88% yn cytuno y dylai'r gorsafoedd llai barhau i fod yn rhan o Wasanaeth Cymru a'r Gororau fel y dangosir yn ffigur 11 isod.




Ffigur 10 - A ydych yn credu y dylid trosglwyddo'r tair gorsaf fwyaf i weithredwr arall?



Ffigur 11 – A ddylai'r gorsafoedd llai ar hyd y ffin barhau i fod yn rhan o Wasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau?

Prisiau a thocynnau i hwyluso teithio ar y trên

Roeddem eisiau gwybod sut y dylem wella'r system docynnau er mwyn ei gwneud yn haws i bobl deithio. Mae ffigur 12 isod yn dangos yr opsiynau o ran tocynnau a fyddai'n annog pobl i deithio mwy ar y trên ym marn yr ymatebwyr. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr yn credu mai system docynnau symlach fyddai'r flaenoriaeth uchaf er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio trenau. Ategwyd hyn hefyd yn y digwyddiadau ymgynghori.




Ffigur 12 – Annog teithio ar y trê

Gofynnwyd hefyd am awgrymiadau ar gyfer cynigion tocynnau eraill y dylid eu hystyried. Cafwyd llawer o syniadau yn cynnwys tocynnau 10-taith a thocynnau tymor am bris gostyngol i weithwyr rhan-amser a'r rhai sy'n gweithio sifftiau nos.

Darparu gwybodaeth well

Gofynnwyd sut y byddai'n well gan bobl gael gwybodaeth. Nodwyd yn gyson mai gwefan yw'r lle gorau i gael gafaer ar wybodaeth. Fodd bynnag, ystyriwyd bod darparu gwybodaeth ar ffurf copi caled a staff gwybodus mewn gorsafodded yn bwysig hefyd, ac roedd hyn yn arbennig o wir yn y digwyddiadau. Mae ffigur 13 isod yn dangos sut yr ymatebodd pobl.




Ffigur 13 – Hoff ddulliau cyfathrebu

METRO DE CYMRU

Mae'r canlynol yn cynnwys dadansoddiad cryno'n unig o'r ymatebion mewn perthynas â chwestiynau a ofynnwyd yn benodol ynglŷn ag ardal Metro De Cymru.

Cafodd nifer o ddatganiadau mewn perthynas â sicrhau bod cymaint o le ag y bo modd i deithwyr eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Gofynnwyd i ymatebwyr gytuno neu anghytuno â phob datganiad. Mae ffigur 14 isod yn dangos sut y gwnaeth pobl ymateb.


Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad nad oes angen cael toiledau ar drenau. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn anghytuno â'r datganiad nad oes angen cael toiledau ar drenau os darperir mwy ohonynt mewn gorsafoedd. Trafodwyd mynediad i gyfleusterau toiled glân ar drenau ac mewn gorsafoedd hefyd ym mhob digwyddiad ymgynghori a grŵp ffocws. Roedd consensws clir ymysg yr ymatebwyr hefyd y dylid cael mynediad i drenau ar lawr gwastad.



Ffigur 14 – Blaenoriaethau ar gyfer ardal y Metro

Cludo nwyddau


Holwyd am y gostyngiad yn y defnydd o'r rheilffyrdd ar gyfer cludo nwyddau ac a ddylid neilltuo'r capasiti i drenau teithwyr hyd yn oed pe bai hynny'n golygu na fyddai modd ei ddefnyddio wedyn i gludo nwyddau. Roedd mwyafrif bychan yn teimlo y dylid clustnodi'r capasiti i drenau teithwyr. Mae ffigur 15 isod yn dangos yr ymateb.



Ffigur 15 – Defnyddio capasiti ar gyfer cludo nwyddau

Adeiladu

Gofynnwyd sut y dylid rheoli gwaith adeiladu'r Metro. Mae'r ymatebion, yn ffigur 16 isod, yn dangos bod y farn wedi'i rhannu'n gyfartal fwy neu lai rhwng y rhwydwaith yn cau am gyfnod penodol, sef y cyfnod adeiladu byrraf, a'r gwaith yn cael ei wneud dros nos ac ar benwythnosau yn unig, a fyddai'n arwain at y cyfnod adeiladu hiraf.



Ffigur 16 – Rheoli gwaith adeiladu'r Metro

Yn dilyn hyn, gofynnwyd am y dulliau cyfathrebu a fyddai fwyaf defnyddiol yn achos amhariad sydd wedi'i gynllunio a gwaith brys. Yn anffodus, o ganlyniad i broblem dechnegol gyda'r cwestiwn hwn ni chasglwyd y data'n gywir o'r arolwg ar-lein. Fodd bynnag, wrth ystyried yr ymatebion ar bapur a'r trafodaethau yn y digwyddiadau a'r grwpiau ffocws, gallwn ragdybio y byddai dewisiadau yn cyd-fynd â'r rhai a ddangosir yn y graff yn ffigur 13 ar dudalen 12. Mae nifer o ymatebwyr yn nodi bod dulliau cyfathrebu ar-lein yn cynnwys gwefannau a chyfryngau cymdeithasol yn ddefnyddiol, fodd bynnag nid oes modd i eraill gael mynediad i'r gwasanaethau hyn ac maent yn dibynnu ar wybodaeth ar ffurf copi caled a staff mewn gorsafoedd i ddarparu gwybodaeth gyfredol.

SYLWADAU CYFFREDINOL

Cafwyd llawer o sylwadau a safbwyntiau ar feysydd eraill a nodir isod.

Hygyrchedd

Yn gyffredinol, roedd unigolion a sefydliadau a ymatebodd yn teimlo bod angen i bobl, yn enwedig pobl hŷn a'r rhai ag anabledau, deimlo'n hyderus bod y cymorth a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt i deithio ar gael drwy gydol eu siwrnai.

Yn y digwyddiadau, roedd cryn drafodaeth ynglŷn â hygyrchedd gorsafoedd i'r rhai mewn cadair olwyn, ac ynglŷn â darparu gwybodaeth hygyrch i'r rhai â nam ar eu synhwyrau. Yn ardal y Metro, gwnaed sylwadau ynglŷn â sicrhau bod y Metro yn gwbl hygyrch er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth 'cyrraedd a mynd' ar gael i bawb. Ceir enghreifftiau isod o'r sylwadau a gafwyd.

Rwy'n anabl ac wedi colli cysylltiadau pan fydd trê'n yn cyrraedd ar blatfform gwahanol i'r un a gyhoeddwyd. Nid wyf yn gallu llusgo fy nghês i fyny'r grisiau, ar hyd ffordd gysylltu uwchben ac i lawr y grisiau nesaf, ac mae'n rhaid imi ddisgwyl am y lifft i fynd a fi i fyny ac i lawr."

"Mae gormod o ddibyniaeth ar gyhoeddiadau dros uwchseinydd, er enghraifft i ddweud pam mae trê'n yn hwyr, ac nid yw pobl fyddar yn cael mynediad clir i'r wybodaeth hon".

"[Rwy'n dioddef o] bryder cymdeithasol felly mae osgoi trenau gorlawn, cael arwyddion clir mewn gorsafoedd a mynediad i doiledau'n bwysig i mi."

"Mae angen ardal i gŵn tywys."

"Dylai [staff] gael hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod ac Ymwybyddiaeth o Anabledd hefyd er mwyn trin pobl â pharch."

Cafwyd nifer fawr o sylwadau ynglŷn â hygyrchedd ar drenau, yn enwedig ynglŷn â sicrhau digon o le i gadeiriau olwyn a chymhorthion symudedd eraill, beiciau a chadeiriau gwthio.

Mwy o lefydd i gadeiriau olwyn. Ydych chi erioed wedi ceisio teithio ar drê'n gydag chwepwl o ffrindiau sydd hefyd yn defnyddio cadair olwyn? Mae'n amhosibl."

Y Gymraeg

Roedd darpariaeth Gymraeg drwy'r gwasanaeth cyfan yn flaenoriaeth, gyda gwybodaeth a chyhoeddiadau dwyieithog mewn gorsafoedd ac ar drenau.

Y Gymraeg a diwylliant lleol. Awgrymwyd y gellid hyrwyddo diwylliant lleol drwy ynganu enwau lleoedd yn gywir, darparu gwybodaeth i dwristiaid a sicrhau bod cynnyrch Cymreig ar gael mewn gorsafoedd.

“Dylai tocynnau fod yn ddwyieithog gyda'r enwau Cymraeg yn gyntaf.”

“[Mae'r Gymraeg yn bwysig] i gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg ac o ran rhoi ymdeimlad o le' sy'n hollbwysig i dwristiaid sy'n ymweld â'n hardal ar y trêen.”

“Mae'n fy ngwylltio pan fyddaf yn teithio ar drên i orsafoedd yng Nghymru o orsaf yn Lloegr ac yn clywed pobl yn gwneud hwyl am ben enwau lleoedd yng Nghymru yn gyson gyda'r agwedd "o alla i ddim ynganu hynny".... Os yw cwmni yn gwasanaethu ardal dylent hyfforddi'r staff i barchu'r ardal, ac ynganu enwau'r lleoedd neu'n mae'n peri dryswch.”

Sylwadau ynglŷn â chyfleusterau gorsafoedd:

“Cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg”

“Arwyddion yn y Gymraeg a'r Saesneg”

“Mae angen gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg”

Y camau nesaf

Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad. O ganlyniad i'r nifer fawr o ymatebion mae gennym ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae pobl ei eisiau ac yn ei ddisgwyl gan y gwasanaeth rheilffyrdd nesaf. Mae'r wybodaeth a roddwyd inni eisoes yn llywio'r broses gaffael yn ein trafodaethau parhaus â'r pedwar cynigydd. Bydd rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu, a darperir gwybodaeth ynglŷn â'r rhain maes o law. Byddwn yn diweddarau ein gwefan wrth i'r prosiect fynd rhagddo a chofiwch ein dilyn ar Twitter i gael y newyddion diweddaraf (@transport_wales), neu os hoffech gael eich cynnwys ar ein rhestr e-bostio er mwyn derbyn cylchlythyrau rheolaidd, e-bostiwch contact@transportfor.wales

